## PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ar drefniadaeth ysgolion, y byddant o bosibl yn ei adolygu o bryd i'w gilydd.  Mae'r Cod yn gosod gofynion mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion y mae'n rhaid i'r canlynol gydymffurfio â hwy ac mae'n cynnwys canllawiau y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt:

- Gweinidogion Cymru;
- awdurdodau lleol;
- cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;
- hyrwyddwyr cynigion i sefydlu ysgolion gwirfoddol.

Cyhoeddwyd y cod blaenorol yn 2018.  Fe wnaethom adolygu'r Cod ar ôl iddo fod yn weithredol am dros bum mlynedd a nodi'r angen am nifer o newidiadau.  Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn adlewyrchu polisi a deddfwriaeth sydd wedi dod i rym ers cyhoeddi Cod 2018 neu maent yn atgyfnerthu'r gofynion sy'n ymwneud â deddfwriaeth a oedd ar waith bryd hynny.  Mae'r ddeddfwriaeth a'r polisi dan sylw, a restrir isod, yn cyflawni ymrwymiadau ac amcanion lles Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'n rhaglen addysg hirdymor i godi safonau a lleihau anghydraddoldebau a'r ymdrech tuag at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg.

**Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn** pennu safonau sy'n ymwneud ag ymddygiad cyrff penodol (gan gynnwys Gweinidogion a chynghorau Cymru). Mae'r rhain yn cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisïau, safonau gweithredu, safonau hybu, a safonau cadw cofnodion.

Mae Atodlen 2 o Reoliadau 2015 yn nodi safonau llunio polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safonau llunio polisi 88-97 yn berthnasol gan fod **rhaid** cydymffurfio â nhw wrth wneud pob penderfyniad polisi, gan gynnwys cynigion trefniadaeth ysgolion, sy'n ymwneud â phob ysgol a gynhelir, waeth beth fo'i chategori iaith.

O dan safonau 91, 92 a 93, **rhaid i** ddogfennau ymgynghori ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg a hefyd gofyn am farn ar effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Mae'r rhain yn ofynion ar wahân, sy'n golygu bod yn rhaid cael asesiad effaith ac yna mae'n rhaid gofyn cwestiynau am yr asesiad hwnnw.  Mae'r Cod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu ac atgyfnerthu Rheoliadau 2015. Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol i Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg gael ei gynnal ar gyfer pob cynnig statudol.

Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio i fod yn gyson â ***Cymraeg 2050***, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, a'r targedau a bennir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd pob awdurdod lleol sy'n cefnogi'r uchelgais honno. O ystyried pwysigrwydd y sector addysg yn ei gyfanrwydd o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r broses o gynllunio a datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion

adlewyrchu ein huchelgeisiau yn *Cymraeg 2050* a chefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Mae **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018')** yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc (y system ADY). Mae'n disodli'r system ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig (AAA) plant mewn ysgolion ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg bellach.

Cychwynnodd gweithredu Deddf 2018 o 1 Medi 2021. Mae'r system ADY yn cael ei chyflwyno fesul cam dros gyfnod o bedair blynedd hyd at haf 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA. Hyd nes y bydd Deddf 2018 wedi ei dwyn i rym yn llawn, mae pob cyfeiriad at Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a darpariaeth AAA (DAA) yn y Cod yn cael ei ddarllen fel AAA/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a DAA/darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn y drefn honno.

Sefydlodd **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** drefniadau  newydd ar gyfer y cwricwlwm ac asesu fel rhan o raglen ehangach o ddiwygio addysg yng Nghymru.

Sefydlodd **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"). Y Comisiwn yw'r corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan gwmpasu addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae dyletswydd statudol arno i sicrhau y darperir cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-orfodol 16-19 oed ac i'w cyllido.

Mae pwerau Gweinidogion Cymru, o dan adrannau 71 i 76 o Ddeddf 2013, i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth, wedi cael eu dileu. Mae Pennod 3A newydd wedi cael ei mewnosod i Ran 3 o Ddeddf 2013 er mwyn galluogi'r Comisiwn i weithredu mewn ffordd fwy strategol, gan gynnig safbwynt ehangach ar ddarpariaeth chweched dosbarth ysgol a sicrhau y gall gefnogi dewis a chynnydd i ddysgwyr.

Mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol yn cadw eu swyddogaethau presennol mewn perthynas â chyflwyno cynigion ynghylch trefniadaeth chweched dosbarth ysgolion. Nid yw swyddogaethau'r Comisiwn yn arwain at golli unrhyw ddarpariaethau gwarchodol presennol mewn perthynas â chyhoeddi cynigion, ymgynghori arnynt a'r gallu i'w gwrthwynebu ac mae darpariaethau pwysig eraill yn Neddf 2013 yn dal i fod ar waith.

Mae newidiadau eraill yn cryfhau'r gofynion presennol a osodir gan y Cod. Mae hyn yn cynnwys gofyniad newydd i gyhoeddi dogfennau allweddol, fel y ddogfen ymgynghori, ar wefan yr awdurdod lleol, yn ogystal â gwefan y cynigydd ei hun, lle'u bod yn wahanol. Rydym hefyd wedi ymestyn y rhestr o bartïon y mae'n rhaid eu hysbysu bod y dogfennau hyn ar gael.  Rydym hefyd wedi ehangu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a'r Asesiad o Effaith ar y Gymraeg (y mae'n rhaid ei gynnal ar gyfer pob cynnig), er mwyn sicrhau bod asesiadau effaith yn gadarn ac yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi rhanddeiliaid i ddarparu ymateb gwybodus.  Mae'r rhestr lawn o newidiadau i'r Cod ynghlwm wrth y ddogfen ymgynghori.  Nid ydym yn ystyried bod y newidiadau hyn yn gosod costau ychwanegol ar gynigwyr.

Cyn cyhoeddi neu ddiwygio'r Cod, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar ddrafft. Bydd ymgynghoriad 12 wythnos yn rhedeg o 8 Tachwedd 2024 i 14 Chwefror 2025.

## CASGLIAD

**Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Mae'r Cod yn cael ei adolygu'n barhaus ac fel rhan o hyn rydym yn monitro unrhyw adborth a ddaw i law oddi wrth y rhai sy'n ymwneud â gwneud cynigion statudol ac eraill sydd â diddordeb mewn llywio newidiadau yn y dyfodol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgolion Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg (CCAC) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru ynghyd â chynrychiolwyr awdurdodau esgobaethol. Rydym wedi ymgysylltu â'r grŵp i ofyn am eu barn ar unrhyw newidiadau y maent yn credu sydd eu hangen i'r Cod ar sail eu profiad o ddefnyddio'r Cod dros ragor na phum mlynedd o'i weithredu.

Yn ogystal, bydd ymgynghoriad 12 wythnos yn cael ei gynnal o 8 Tachwedd 2024 i 14 Chwefror 2025.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Cod yn adlewyrchu polisi a deddfwriaeth sydd wedi dod i rym ers cyhoeddi Cod 2018 neu'n atgyfnerthu'r gofynion sy'n ymwneud â deddfwriaeth a oedd ar waith bryd hynny. Mae'r ddeddfwriaeth a'r polisi dan sylw yn cyflawni ymrwymiadau ac amcanion lles Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'n rhaglen addysg hirdymor i godi safonau a lleihau anghydraddoldebau a'r ymdrech o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. O'r herwydd, bydd y newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod y Cod yn gyson â pholisi allweddol a'i fod yn gywir ac yn gyfredol.

Bydd y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Cod yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan eu bod yn adlewyrchu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ac yn atgyfnerthu'r gofynion a osodir gan y rheoliadau hynny.

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn pennu safonau sy'n ymwneud ag ymddygiad cyrff penodol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru a chynghorau sir a bwrdeistrefi sirol). Mae'r rhain yn cynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisïau, safonau gweithredu, safonau hybu, a safonau cadw cofnodion.

Mae Atodlen 2 o Reoliadau 2015 yn nodi safonau llunio polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae safonau llunio polisïau 88-

97 yn berthnasol i gynigion trefniadaeth ysgolion am fod yn **rhaid** i gyrff gydymffurfio â hwy wrth wneud pob penderfyniad polisi, gan gynnwys cynigion trefniadaeth ysgolion. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i gynigion sy'n ymwneud â phob ysgol a gynhelir waeth beth fo'i chategori iaith.

O dan safonau 91, 92 a 93, **rhaid i** ddogfennau ymgynghori ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg  a hefyd ofyn am farn ar effaith y penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Mae'r rhain yn ofynion ar wahân, sy'n golygu bod rhaid cael asesiad effaith ac yna mae'n rhaid gofyn cwestiynau am yr asesiad hwnnw.

Mae'r Cod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu Rheoliadau 2015. Wrth wneud hynny, mae'n ei gwneud yn ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob cynnig statudol, waeth beth yw categori iaith yr ysgolion sy'n destun i'r cynigion. Mae'r Cod hefyd wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio i fod yn gyson â ***Cymraeg 2050***, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, a'r targedau a bennir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd pob awdurdod lleol sy'n cefnogi'r uchelgais honno. O ystyried pwysigrwydd y sector addysg yn ei gyfanrwydd o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r broses o gynllunio a datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion adlewyrchu ein huchelgeisiau yn *Cymraeg 2050* a chefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.  Mae'r **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** ar gael yn **Atodiad E** isod.

Mae'r Cod yn gosod safon uchel ar gyfer ymgynghori, gan sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael cyfle i ddweud eu dweud a bod eu sylwadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses statudol. Bydd newidiadau eraill sy'n cael eu gwneud i'r Cod, gan gynnwys y gofyniad i ddogfennau allweddol, er enghraifft y ddogfen ymgynghori, gael eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol yn ogystal â gwefan y cynigydd hun, cynyddu'r rhestr o'r rhai y mae'n rhaid eu hysbysu bod y dogfennau hyn ar gael, a chynyddu'r wybodaeth sy'n ofynnol ei chael yn y ddogfen ymgynghori a'r asesiad Effaith ar y Gymraeg, yn cael effaith gadarnhaol ar yr hyn sydd eisoes yn drefniadau cadarn.

**Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cael ei adolygu'n barhaus ac mae'n ddarostyngedig i welliant o leiaf bob pum mlynedd neu'n gynt yn ôl yr angen.  Byddwn yn parhau i gwrdd â Grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgolion CCAC a monitro unrhyw adborth.  Rydym hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gydag Estyn i ofyn am eu barn.